**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr**
**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyfarfod cyffredinol**

**Dydd Llun 27 Tachwedd 2017**
**11.00–14.30**
**Ysgol Gynradd Gymunedol Priordy Cil-maen**

**Yn bresennol**

Julie Morgan AC
Shelley Morris, Pennaeth Ysgol Gynradd Gymunedol Priordy Cil-Maen
Shona Probert
Sonia Dixon - Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, Caerdydd
Rhiannon Jones - Teithio Ymlaen, Tros Gynnal Plant
Liz Cartwright - Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chleifion, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
Helen West – Swyddfa Julie Morgan AC
Thomas Hendry
David Phillips
Alison Davies
Bev Stephens
Caroline Hodgson
Jasmine Jones - Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Peter Gill - Tîm Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
Nicola - Tîm Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
Hector Walker - Tîm Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
Ann Davies
Kirby Jones
Tyrone Price
Leanne Morgan
Charlie - Aelod o'r gymuned
Clare - Priory Project
Trudy Aspinwall - Teithio Ymlaen, Tros Gynnal Plant
Denise Barry - SOVA
Pearl Llewellyn - Cynghorydd Sir Benfro dros Gil-maen

**Ymddiheuriadau**

Angela Burns AC
Neil Hamilton AC
Paul Davies AC
Llyr Gruffydd AC

Dechreuodd Julie drwy groesawu pawb i'r cyfarfod, gan ddiolch i Shelley am adael i'r grŵp ddefnyddio'r ysgol ar gyfer y cyfarfod. Wedyn, gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain. Cadarnhaodd Julie mai diben y sesiwn hon oedd trafod datblygiadau yn Sir Benfro.

**Shelley**
Yn anffodus, daeth cyllid prosiect Undod dros gyfnod o dair blynedd i ben ym mis Ionawr 2017. Roedd y prosiect yn grymuso aelodau'r gymuned ac yn rhoi mynediad uniongyrchol iddynt at adnoddau o ran iechyd ac at nyrs ddynodedig. Yn sgil dirwyn prosiect Undod i ben, mynegwyd pryderon ynghylch sut y bydd y gymuned yn cael mynediad at gyfleusterau iechyd. Fodd bynnag, mae'r prosiect wedi grymuso'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr i ofyn pan fo angen help arni - felly mae'r prosiect wedi sicrhau etifeddiaeth gadarnhaol.

Mae cynllun Teithio Ymlaen wedi'i sefydlu ac mae'n helpu, ond nid yn yr un modd â phrosiect Undod.

Mae'n rhaid i Gyngor Sir Benfro wneud arbedion o £20,000 yn y gyllideb ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Maent hefyd yn cynnig toriad o 5 y cant i'r gyllideb addysg.

**Shona**
Ers i brosiect Undod ddod i ben, mae'n teimlo nad oes unrhyw un ar gael i droi ato am gymorth. Nid oes unrhyw un ar gael i siarad â nhw.

**Shelley**
Trafod fforwm i bobl ifanc. Anfonodd hi e-bost at ysgolion uwchradd lleol ym mis Hydref i hwyluso'r broses o sefydlu'r fforwm, ond nid yw hi wedi cael llawer o ymatebion. Mae angen gweithiwr cyswllt ar ysgolion i helpu plant o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr mewn ysgolion.

**Denise**
Mae Pennaeth Ysgol Greenhill eisiau cymryd rhan, ond mae hi eisiau siarad â'r plant yn uniongyrchol yn gyntaf. Mae hi'n aros am ddyddiad ar gyfer cyfarfod ar ôl y Nadolig.

**Peter**
Roeddwn i'n meddwl bod fforwm i bobl ifanc eisoes wedi'i sefydlu.

**Denise**
Ers i brosiect Undod ddod i ben, mae'r momentwm wedi lleihau.

**Kirby**
Nid yw plant o reidrwydd yn gwybod bod ganddynt fforwm. Mae angen iddynt gael gwybod am y fforwm yn y ffordd gywir.

**Clare**
Bydd prosiect Priory yn ceisio parhau â gwaith prosiect Undod.

**Shelley**
Gall pob disgybl yn Sir Benfro gyfrannu at fforwm pobl ifanc Cymru - yr unig beth sydd ei angen arnynt yw'r cyfle i wneud hynny.

**Kirby**
Nid yw plant a phobl ifanc o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn gwybod bod pobl yn ceisio eu helpu oherwydd nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chyfathrebu yn y ffordd gywir. Mae'n golygu eu bod yn teimlo nad oes unrhyw un yn fodlon bod yn eiriolwr ar eu rhan.

**Trudy**
Dylai ysgolion fod â gweithiwr allweddol i ymgysylltu â phlant o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Mae yna fwlch o hyd ac mae angen i ysgolion gamu i'r adwy a nodi beth y gallant ei wneud i helpu eu plant. Dylai ysgolion y brif ffrwd fod yn gwneud hyn yn barod.

**Tyrone**
Byddai'n syniad da dod â phlant o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr i'r cyfarfod â'r Penaethiaid er mwyn iddynt gwrdd â'r plant yn iawn a nodi'r ffyrdd gorau o'u helpu. Wedyn, bydd y plant yn gwybod bod y Penaethiaid yn eiriolwyr ar eu rhan.

**Shelley**
Efallai y dylai tudalennau Facebook hyrwyddo'r gwaith y mae sefydliadau'n ei wneud i helpu'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr er mwyn rhannu'r neges bod pobl yn ceisio helpu.

**Tom Tom**
Mae'r Fforwm Teithio Ymlaen yn boblogaidd iawn ac mae llawer yn mynd iddo. Efallai y gellid ei ddefnyddio fel enghraifft o arfer gorau ar gyfer fforymau eraill.

**Bev**

Rwyf wedi gweithio ar brosiect Undod ers dros 21 o flynyddoedd. Dylem ni oll fod mewn cysylltiad â'n gilydd, gan weithio tuag at yr un nod.
Mewn ysgolion, mae'n bosibl bod y plant eisoes wedi dod o hyd i weithiwr cymorth.

**David**
Tyrone a Shona - beth yw'r problemau yn Sir Benfro yn eich barn chi?
Yng Nghasnewydd, mae gennym un safle a ganiateir ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ('tolerated site'), ac nid yw mwyafrif y plant yn mynd i'r ysgol.

**Tyrone**
Mae angen i'r prosiectau sydd ar gael fod yn fwy amlwg. Mae'n teimlo bod y rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn cael eu gwneud gan oedolion, heb ymgynghori â phobl ifanc.

**Denise**
Drwy'r prosiect Undod, roedd pobl ifanc yn cymryd rhan yn fwy nag erioed.

**Shona**
Bu llawer o siarad am ddigwyddiadau/prosiectau yn y gorffennol ac ati. Mae angen inni edrych i'r dyfodol.
Yn Ysgol Greenhill, ni all plant o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr gwrdd â'i gilydd gan nad oes neb ar gael i hwyluso'r broses.
Mae angen i blant o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ddod at ei gilydd i drafod materion a phryderon sy'n bwysig iddynt. Wedyn, gallant drosglwyddo'r materion hyn i brosiect Priory.

**Kirby**
Mae Sipsiwn a Theithwyr am gael eu cynnwys mewn cynlluniau i'w helpu, ond nid ydynt am gael eu hallgau o weithgareddau cyffredinol drwy orfod mynd i'r sesiynau hyn.
Rhoddwyd enghraifft o gymydog sydd â phlentyn sydd ag anhwylder deubegynol a sgitsoffrenia. Nid oedd y rhieni wedi ticio'r blwch i nodi ei fod yn dod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr oherwydd y byddai hyn wedi achosi iddo gael ei nodi'n syth fel 'plentyn drwg o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr', er mai'r cyflwr oedd yn gyfrifol am ei ymddygiad. Roedd yn rhaid i mi helpu i fynd ag ef i'r ysbyty oherwydd ei fod yn bygwth lladd ei hun. Pan wnaethom ni gyrraedd, ni chafodd y gefnogaeth gywir. Mae'n dal i aros i gael y driniaeth gywir.

**Clare**
Mae iechyd yn fater pwysig i Sipsiwn a Theithwyr ac mae'n rhaid gwneud rhywbeth.

**Peter**
Rydw i'n gweithio ym maes iechyd meddwl i oedolion felly nid oes gennyf lawer o fewnbwn o ran plant.

**Clare**
A oes gweithwyr allgymorth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr?

**Peter**
Nid oes unrhyw un y mae e'n gwybod amdano.

**Julie**
A allai hyn fod yn rhywbeth y gall ef ei argymell a'i ddwyn ymlaen?

**Bev**
Mae effaith dod â phrosiect Unity i ben ar feddygfeydd teulu ym Mhenfro a Doc Penfro wedi bod yn aruthrol. Bu staff mewn meddygfeydd yn trafod a allent ariannu prosiect tebyg i brosiect Undod eu hunain gan fod ganddynt arian sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer prosiectau fel hyn.

**Julie**
A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu trafod?

**Tyrone**
Gall yr amodau y mae pobl yn byw ynddynt effeithio ar iechyd meddwl. Mae helpu gydag iechyd meddwl yn un peth, ond os yw amodau byw yn wael ni fydd unrhyw gefnogaeth yn llwyddo.

**Kirby**
Gofynnwyd i Sipsiwn a Theithwyr lenwi holiadur yr Asesiad o Anghenion Llety a chafwyd addewid y byddai amodau'n gwella. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd ers hynny, felly byddant yn amharod i lenwi asesiad arall a chydweithio yn y dyfodol.

**Shelley**
Hoffwn gyflwyno Pearl Llewellyn, y cynghorydd o Gyngor Sir Benfro, sydd newydd gyrraedd y cyfarfod.

**Julie**
Rwy'n credu bod hwn yn gyfle da i ni gael egwyl am hanner awr cyn ailddechrau.

**EGWYL**

**Julie**
Hoffwn ddiolch i Shelley am adael i ni ddefnyddio'r neuadd ac i Katie am y bwyd hyfryd.
Efallai y gall rhywun o'r tîm iechyd meddwl roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ba wasanaethau iechyd meddwl rydych chi'n eu darparu.

**Hector**
Rwy'n ymdrin ag iechyd meddwl oedolion yn bennaf. Ar hyn o bryd, mae yna gynllun i drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl i newid y ffordd y maent yn cynnig eu gwasanaethau. Bydd mwy o bwyslais ar drin pobl yn y cartref.

**Nicola**
Sut allwn ni ymgysylltu â phobl nad oes ganddynt fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt?

**Sonia**
Mae'n bwysig iawn trin pobl yn y cartref, lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel.

**Kirby**
Sut mae pobl yn defnyddio'r gwasanaethau o'r cychwyn cyntaf?
Fel arfer, y plentyn hynaf sy'n ceisio cael mynediad at y gwasanaethau ar ran y rhieni. Felly, mae angen i wybodaeth fod ar gael yn rhwydd.

**Hector**
Y meddyg teulu yw'r brif ffordd o gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl.

**Kirby**
Ni all Sipsiwn a Theithwyr ymyl ffordd gofrestru â meddygfeydd meddygon teulu oherwydd nid oes ganddynt gyfeiriad sefydlog, felly nid ydynt yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae angen dod o hyd i ffordd arall, fel ysgolion neu fudiadau gwirfoddol sy'n gallu cyfeirio pobl at wasanaethau iechyd meddwl.

**Hector**
O dan y cynllun newydd, bydd canolfan galw i mewn lle gall pobl hunangyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl.

**Shona**

Rwyf wedi cael profiad uniongyrchol o orfod cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Cefais fy nghyfeirio gan yr ysgol at adran ddamweiniau ac achosion brys ac ymlaen at wasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed. Cefais apwyntiad â nhw yn gyflym iawn.

**Kirby**
Dim ond rhywun o dîm iechyd meddwl oedolion oedd ar gael i weld fy nghymydog 10 oed a oedd yn bygwth lladd ei hun. Dywedwyd wrtho i fynd adref. Mae angen gwasanaeth gwell ar blant.

**Shelley**
Mae gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed o dan bwysau eithafol. Mae angen i ysgolion gynnig cymorth ar y safle.

**Tom Tom**
Mae Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar ymyl y ffordd yn wynebu pwysau eithafol a all effeithio ar eu hiechyd meddwl.

**Kirby**
Maent bob amser o dan bwysau. Nid oes ganddynt gyflenwad dŵr a thrydan, na thoiledau. Maent bob amser yn ofni y gallai plant gerdded allan i'r ffordd. Mae trawma eu hamgylchiadau yn ddigon i sicrhau bod angen cymorth ar Sipsiwn a Theithwyr.

**Tom Tom**
Beth am safleoedd sefydlog – beth yw'r sefyllfa yno?

**Tyrone**
Gall safleoedd fod wedi'u hynysu. Yn aml, nid yw cymdogion yn gallu siarad â'i gilydd oherwydd rhwystrau o fewn y safleoedd.

**Kirby**
Gall cyfleusterau fod yn gyfyngedig iawn. Weithiau, mae un peiriant golchi i ddau deulu ac ati. Mae yna broblem o ran diogelwch tân oherwydd bod gormod o bobl yn byw ar safle bach.

**Sonia**
Rwy'n fam i blentyn sydd ag anghenion arbennig. Rydw i'n byw yn Shirenewton yng Nghaerdydd. Rwyf i a fy mhlant yn teimlo'n unig oherwydd fy mab sydd ag anghenion arbennig – mae stigma yn gysylltiedig ag anghenion arbennig, felly nid

yw teuluoedd eraill ar y safle yn siarad â ni.  Mae'r safle yn bell iawn i ffwrdd o gyfleusterau lleol ac nid wyf yn gallu gyrru, felly rwy'n teimlo fy mod wedi fy ynysu.

**Kirby**
Mae plant yn wynebu straen hefyd, gan fod y farn ar addysg wedi newid.  Mae plant iau yn mynd i'r ysgol, ond nid oedd yn rhaid i'w brodyr a chwiorydd hŷn wneud hynny.  Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i'r brodyr a chwiorydd hŷn wrth iddynt geisio gwneud tasgau gweinyddol, oherwydd bod eu gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn gyfyngedig.

**Tom Tom**
Mae dynion o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr o dan bwysau mawr bob dydd gan fod yn rhaid iddynt fynd allan i weithio i ennill cyflog i'w teuluoedd.  Daw'r straen ychwanegol o beidio â gwybod faint o arian y byddant yn ei gymryd adref ar ddiwedd pob dydd.

**Shelley**
Cynigir addysg i oedolion drwy'r ysgol, sy'n cynnwys diogelwch ar y safle, llythrennedd cyfrifiadurol a dau gwrs gradd.

**Sonia**
Rwy'n cael trafferth yn darllen llythyrau sy'n dod drwy'r post.  Gallaf ddarllen y geiriau, ond nid wyf yn deall yr ystyr.

**Tyrone**
Dylai sefydliadau fod yn ymwybodol o bwy sy'n derbyn ac yn darllen y llythyrau a darparu ar eu cyfer.

**Shelley**
Rydym wedi nodi bod cyswllt wyneb yn wyneb â rhieni o'r gymuned yn lleihau o ganlyniad i ddefnyddio ffonau symudol.

**Peter**
Rwy'n awyddus i weithio gyda phobl o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.  Rwy'n poeni am y bobl nad ydym yn gwybod amdanynt a'r rhai nad ydynt yn cael mynediad at wasanaethau.

**Bev**

Yn bendant mae'n rhaid dechrau yn yr ysgol er mwyn nodi'r rhai sydd â phroblemau. Gall aelodau'r gymuned ddod i mewn a gwneud rhywbeth, wedyn gallwn siarad â nhw am iechyd meddwl.

**Shona**
Mae gwasanaethau ar-lein yn ffordd dda o gynnig mynediad at gymorth o ran iechyd meddwl.  Fodd bynnag, mae angen rhywle i helpu pobl â llythrennedd digidol.

**Trudy**
A oes unrhyw gyllid ar gyfer cynnal bore coffi i drafod iechyd meddwl, er enghraifft, lle gall pobl alw heibio'n anffurfiol i siarad am eu problemau/pryderon o ran iechyd meddwl?

**Hector**
Nid oes unrhyw beth rwy'n gwybod amdano, ond byddaf yn nodi'r syniad.

**Charlie**
Nid yw aelodau'r gymuned yn dod i gyfarfodydd oherwydd eu bod yn gwybod na fydd unrhyw beth yn cael ei wneud.  Mae'r awdurdodau lleol yn gofyn iddynt gymryd rhan, ond nid ydynt yn gwneud unrhyw beth i wella'r sefyllfa.

**Julie**
Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud deddfau, ac mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w gweithredu.  Mae'r cyngor yn atebol – ysgrifennaf atynt i weld beth sy'n digwydd o ran yr asesiad o anghenion llety.

**Shona**
Mae'n anodd iawn dod o hyd i leoliad addas ar gyfer slabiau/safleoedd newydd.

**Julie**
Diolch yn fawr iawn i chi am ddod i'r cyfarfod heddiw.  Roedd yn hynod bwysig clywed am y materion penodol sy'n effeithio ar Sir Benfro.  Y pwyntiau gweithredu y byddaf yn eu dwyn ymlaen yw:

1. Canlyniadau'r asesiad o anghenion llety
2. Effaith torri'r grant addysg
3. Colli nyrsys dynodedig ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr
4. Gwasanaethau iechyd meddwl

**Shelley**

Diolch yn fawr i Julie a'r gwasanaeth iechyd meddwl am ddod i'r ysgol.  Gobeithiwn y gallwn symud ymlaen a gwneud gwelliannau.

**Tyrone**
Mae angen inni fynd i'r afael â'r materion hyn hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 14.00.